

Llongyfarch a dymuno'n dda

Llongyfarchiadau i'r bobl ifanc (a hŷn) a lwyddodd yn eu harholiadau mewn ysgol a choleg yr haf hwn. Bu'n gyfnod anodd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf oherwydd y pandemig Covid-19, ac felly rhaid llongyfarch pawb ar eu llwyddiant dan amgylchiadau anarferol a dyrws.

Dymunwn yn dda i'r bobl ifanc a fydd yn mynd i wahanol golegau yr hydref hwn neu'n cychwyn mewn gwaith.

Dymunwn yn dda hefyd i'r plant a fydd yn symud o un dosbarth i'r llall yn eu

hysgolion yr wythnos hon, ac yn arbenig i'r rhai sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Bydd rhai plant bach yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf wrth gwrs, a dymunwn yn dda iddynt hwy a'u rhieni.

Cofion

Wrth ail ddechrau'r oedfaon yn eglwysi'r Ofalaeth wedi'r seibiant a gafwyd dros fis Awst, anfonwn ein cofion at yr aelodau sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd. Gwelwn golli eich cymdeithas. Dymunwn adferiad iechyd i bawb sydd heb fod yn dda ac anfonwn ein cyfarchion at bawb sydd mewn cartref preswyl a chartref nyrsio.

Y Suliau nesaf

Llanberis

Medi 4

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Medi 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Medi 18

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Medi 25

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Deiniolen

Medi 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Medi 11

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Medi 18

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Medi 25

5.00 p.m. - Mrs Nerys Griffith

Y Suliau nesaf

Talybont

Medi 4

2.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Medi 11

2.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 18

2.00 p.m. - Y Parchg Gwenda Richards

Medi 25

2.00 p.m. - Y Gweinidog

Llanllechid

Medi 4

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 11

5.00 p.m. - Y Parchg Glenys Jones

Medi 18

5.00 p.m. - Y Parchg Dewi Morris

Medi 25

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 948
04 Medi 2022
Gronyn

Dros Bacistan

Un o arwyddion amlwg yr haf sych a gafwyd yng Nghymru yw'r lluniau a welsom o bobl yn sefyll ger adfeilion rhai o adeiladau pentref Capel Celyn wrth i lefel y dŵr yng Nghronfa Ddŵr Tryweryn ostwng. Wedi cael haf mor sych mae'n amhosib i ni amgyffred yr hyn a ddigwyddodd ym Mhacistan y dyddiau diwethaf hyn yn sgil y glaw monsŵn a'r llifogydd a'i dilynodd. Sut allwn ddechrau dychmygu'r gyflafan hon a adawodd un rhan o dair o'r wlad gyfan dan ddŵr?

Mae'r ffigurau moel yn ddychrynlyd: dros 1,100 wedi eu lladd; dros 1,600 wedi eu hanafu; dros filiwn o dai un ai wedi eu difrodi neu eu dinistrio; tri chwarter miliwn o anifeiliaid wedi eu colli; a hyd at dair miliwn a hanner o aceri o gnydau wedi eu difetha. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod 33 miliwn o bobl – un o bob saith o bobl y wlad – wedi eu heffeithio gan y llifogydd dychrynlyd hyn. Mae dros 6 miliwn ohonynt mewn angen difrifol.

Os yw'r ffigurau moel yn ddychrynlyd mae'r lluniau a'r adroddiadau yn fwy felly. Gall ffigurau moel fynd yn angof yn sydyn ond mae lluniau pentrefi a threfi dan ddŵr yn aros. Ac mae gweld cartrefi wedi eu difetha a phobl a phlant yn glynu wrth y llain gulaf o dir sych yn anodd iawn eu hanghofio. Ac er bod llifogydd a dinistr gyda ni erioed mae'n amlwg eu bod yn amlhau ac yn dwysau oherwydd y Newid Hinsawdd y clywsom gymaint amdano dros y blynyddoedd diwethaf.



Yn naturiol, mae Pwyllgor Argyfyngau Brys Cymru (DEC Cymru) a'i elusennau cysylltiol, sy'n cynnwys Cymorth Cristnogol a Tearfund, yn apelio am arian er mwyn medru anfon cymorth brys i bobl Pacistan. Ac er yr argyfwng ariannol y clywsom gymaint amdano dros yr wythnosau diwethaf mae dros 13 miliwn a hanner o bunnoedd wedi ei gyfrannu at apêl DEC trwy wledydd Prydain. Dros y dyddiau nesaf, mae'n sicr y bydd y swm hwnnw'n cynyddu, a does ond gobeithio y bydd ceiniog a gyfrannwn yn help bychan.

Er i ni deimlo'n analluog i helpu am ein bod mor bell i ffwrdd (a ninnau a bod yn onest yn diolch yr un pryd nad ydym ni a'n hanwyliaid yn agos at y fath ddinistr), y mae un peth pwysig y medrwn ei wneud. Mi fedrwn weddio, a rhaid gwyllo rhag i ni am un eiliad ddibrisio gwerth y gweddio hwnnw. Mae'r elusen Gristnogol Tearfund yn ein hannog i ganolbwyntio ar bum peth yn ein gweddïau.

Gweddïwn dros y bobl a ddiodefodd oherwydd y llifogydd. Gweddïwn dros y bobl sy'n ymateb i'r argyfwng. Gweddïwn y bydd nerth a chariad Duw yn amlwg wrth i eglwysi Pacistan wasanaethu'r bobl a ddiodefodd. Gweddïwn dros y plant a'r bobl sy'n fwy bregus na'i gilydd. A gweddïwn y bydd y glaw yn peidio a phobl ar draws y byd, ac arweinwyr y gwledydd cyfoethocaf yn arbennig, yn gwneud popeth posibl i delio ag argyfwng Newid Hinsawdd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

21 oed

Gan nad oes disgwyl i neb arall gofio, mae *Gronyn* am ddymuno Penblwydd Hapus iddo'i hun heddiw. Ar Sul cyntaf Medi 2001 y cychwynnwyd ei gyhoeddi yn wythnosol (er iddo gael ei gyhoeddi'n achlysurol cyn hynny). Dros y dyddiau nesaf, rydym yn siŵr o glywed llawer am y mis arbennig hwnnw gan mai ar Fedi 11 y flwyddyn honno y chwalwyd Dau Dŵr Canolfan Fasnach y Byd yn Efrog Newydd. Oes, mae 21 o flynyddoedd ers y digwyddiad erchyll hwnnw. Ac nid syndod o gwbl mai am y gyflafan honno y soniwyd yn *Gronyn* ar y Sul yn dilyn y digwyddiad. Dros y 21 mlynedd diwethaf cyfeiriodd y negeseuon ar dudalen flaen *Gronyn* at bob math o ddigwyddiadau a phynciau, ond mae testun y dudalen flaen heddiw'n ein hatgoffa eto o'r dioddefaint mawr sydd yn ein byd wrth i ni weld y llifogydd dychrynlyd ym Mhacistan. Cawn ein hatgoffa unwaith eto o'r angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu er mwyn estyn cymorth i bobl anghenus ymhell ac agos.

Does wybod a wêl y *Gronyn* 21 mlwydd oed ben blwydd arall chwaith.

Genesis

Yna aeth Jacob ymlaen ar ei daith, a dod i wlad pobl y dwyrain. Wrth edrych, gwelodd bydew yn y maes, a thair diadell o ddefaid yn gorwedd wrtho, gan mai o'r pydew hwnnw y rhoid dŵr i'r diadelloedd. Yr oedd carreg fawr ar geg y pydew, a phan fyddai'r holl ddiadelloedd wedi eu casglu yno, byddai'r bugeiliaid yn symud y garreg oddi ar geg y pydew, a rhoi dŵr i'r defaid, ac yna'n gosod y garreg yn ôl yn ei lle ar geg y pydew. Dywedodd Jacob wrthynt, "Frodyr, o ble'r ydych yn dod?" Atebasant, "Rhai o Haran ydym ni." Yna gofynnodd iddynt, "A ydych yn adnabod Laban fab Nachor?" Atebasant hwythau, "Ydym." Wedyn meddai wrthynt, "A yw'n iawn?" Atebasant, "Ydyw; dacw ei ferch Rachel yn dod â'r defaid." "Nid yw eto ond canol dydd," meddai yntau, "nid yw'n bryd casglu'r anifeiliaid; rhowch ddŵr i'r defaid, ac ewch i'w bugeilio." Ond atebasant, "Ni allwn nes casglu'r holl ddiadelloedd, a symud y garreg oddi ar geg y pydew; yna rhown ddŵr i'r defaid."

Tra oedd yn siarad â hwy, daeth Rachel gyda defaid ei thad; oherwydd hi oedd yn eu bugeilio. A phan welodd Jacob Rachel ferch Laban brawd ei fam, a defaid Laban brawd ei fam, nesaodd Jacob a symud y garreg oddi ar geg y pydew, a rhoi dŵr i braidd Laban brawd ei fam. Cusanodd Jacob Rachel ac wylodd yn uchel. Yna dywedodd Jacob wrth Rachel ei fod yn nai i'w thad, ac yn fab i Rebeca; rhedodd hithau i ddweud wrth ei thad. Pan glywodd Laban am Jacob, mab ei chwaer, rhedodd i'w gyfarfod, a'i gofleidio a'i gusanu, ac aeth ag ef i'w dŷ. Adroddodd yntau'r cwbl wrth Laban, a dywedodd Laban wrtho, "Yn sicr, fy asgwrn a'm cnawd wyt ti." Ac arhosodd gydag ef am fis' (Genesis 29:1-14).

Heddiw Capel Coch

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bethlehem

Gwasanaethir ym Methlehem am 2.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones.

Cefnywaun ac Ebeneser

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Carmel

Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun yng nghapel Carmel am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Llongyfarch

Llongyfarchiadau mawr i Colin a Valerie Jones, Bryn Gelli, Llanberis a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem ddydd Sul diwethaf, Awst 28. Mae eu ffrindiau yn Capel Coch a'r Ofalaeth yn ymuno â'r teulu i ddyddmuno'n dda iddynt.

Angladd

Cafodd eglwys Capel Coch golled fawr ddechrau Awst: bu farw Miss Marion Davies, 5 Rhes Efrog yn Ysbyty Glan Clwyd ar Awst 3 yn 86 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w chwaer yng nghyfraith Pat a'r teulu cyfan yn eu galar a'u hiraeth.

Cafodd Marion ei magu yn Capel Coch a bu'n aelod ffyddlon o'r eglwys ar hyd y blynyddoedd. Deuai'n gyson i'r oedfaon a'r Gymdeithas; roedd yn mwynhau bod yng nghanol prysurdeb y ffeiriau ac ati i godi arian; ac roedd hi ei hun yn hael ei chefnogaeth i bob apêl a gafwyd dros y blynyddoedd er budd gwahanol achosion. Roedd yn mwynhau sgwrs cyn ac ar ôl yr oedfa gan roi trefn ar gopiâu Gronyn, a byddai'n dosbarthu rhai copiâu yn ei chymdogaeth.

Wedi cyfnod byr yn Lerpwl ar ddechrau ei gyrfa daeth adref i'w hen ysgol yn Llanberis ac yn Ysgol Dolbadarn y bu hi'n athrawes hyd at ei hymddeoliad. Yn

nosbarth Miss Davies y cychwynnodd cenedlaethau o blant eu dyddiau ysgol.

Roedd yn gymydog da a chymwynasgar, ac yn gymeriad hwyliog a difyr ei sgwrs. Bu'n chwaer a chwaer yng nghyfraith a modryb ffyddlon a charedig. Yn dilyn ei hymddeoliad, cafodd bleser yn crwydro'r byd gyda Chlwb y Terfeliad yr oedd hi yn un o'i sefydlwyr a'i swyddogion.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogfa Bangor ddydd Iau, Awst 18 dan arweiniad y Gweinidog. Diolch i Mrs Bethan Holding am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elwyn ac Alwyn Searell Jones, Dwyfor, Nant Peris yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Jennie Wyn Jones, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Llun diwethaf, Mawrth 29. Roedd wedi bod yng Nghartref Plas Pengwaith ers pedair blynedd. Nid yw dyddiad ei hangladd wedi ei drefnu eto.

Cydymdeimlwn hefyd ag Arfon a Helen Evans, Llys Awel, Erw Las, Bethesda a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Arfon, Mr Joseph (Joe) Evans, Glan Ffrydlas, Bethesda a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 3.

Comisiynu Andrew

Nos Iau, Medi 22, cynhelir Cyfarfod Comisiynu Andrew Settattree i'w swydd newydd fel Gweithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd Gofalaeth Bresbyteriaid Bangor. Mae Andrew wedi dechrau ei waith ers rhai wythnosau ond bydd yr oedfa hon yn rhoi cychwyn swyddogol i'r gwaith ac yn gyfle i bobl yr Ofalaeth a chyfeillion eraill gyflwyno'r gwaith a phawb sydd ynglŷn ag ef i ofal Duw. Dechreuir yr oedfa am 7.00 o'r gloch, a bydd croeso i bawb yno.